

Arweiniad i Gyrrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol

Cynulleidfa Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; undebau athrawon ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol; Cyngor ar Bopeth Cymru; sefydliadau cydraddoldeb ac anabled; a chyrrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Trosolwg Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad anstatudol i gyrrff llywodraethu a phenaethiaid ynghylch polisiau ar godi tâl a pheidio â chodi tâl am weithgareddau ysgol ac ymweliadau ysgol.

Camau gweithredu gofynnol Dylai cyrrff llywodraethu a phenaethiaid ystyried yr arweiniad anstatudol hwn ynghylch materion sy'n ymwneud â chodi tâl a pheidio â chodi tâl am weithgareddau ysgol ac ymweliadau ysgol.

Gwybodaeth bellach Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6088

Dogfennau cysylltiedig Mae copïau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/schoolfunding/chargingforschoolactivities/?skip=1&lang=cy>.

Ariannu Ysgolion

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/schoolfunding/?skip=1&lang=cy>.

Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/school-governance/schoolgovguide/?skip=1&lang=cy>

ADRAN 560 O DDEDDF ADDYSG 1996

ADRANNAU 449-462 O DDEDDF ADDYSG 1996

Rhan V1 O DDEDDF MEWNFUDO A LLOCHES 1999

Rheoliad 4A(a) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995
(fel y'u diwygiwyd yn 2001)

Adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985

Offeryn Statudol Cymru 2003 Rhif 860 (Cy.107)

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003

Deddf Credydau Treth 2002

Rhan 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2011

Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2013

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	1
Cyflwyniad	2
Cyd-destun cyfreithiol	2
Polisiâu codi tâl a pheidio â chodi tâl	2
Addysg	3
Addysg a ddarperir yn rhannol yn ystod oriau ysgol	3
Gweithgareddau ychwanegol dewisol	4
Trafnidiaeth	5
Hyfforddiant offerynnau cerdd	6
Ymweliadau ysgol	6
Gofyn i rieni am gyfraniadau gwirfoddol	7
Tlodi plant	8
Gweithgareddau na chânt eu cynnal gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol	8
Bysiau mini ysgolion	9
Gwybodaeth Atodol	10
Cwestiynau cyffredin, model o weithdrefn a llythyrau enghreifftiol	10
Atodiad 1: Cwestiynau cyffredin	11
Atodiad 2: Model o weithdrefn	13
Atodiad 3: Llythyrau enghreifftiol	17

Arweiniad i Gyrrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol

Crynodeb

Nod yr arweiniad anstatudol hwn yw helpu cyrrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir i egluro'u polisiau ar godi tâl a pheidio â chodi tâl am weithgareddau ysgol ac ymweliadau ysgol. Mae'n canolbwyntio ar y canlynol:

- gweithgareddau ysgol y gall/na all cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol godi tâl amdanynt, gan gynnwys trafndiaeth, hyfforddiant offerynnau cerdd, ymweliadau preswyl a gweithgareddau ychwanegol dewisol;
- ceisiadau i rieni neu ofalwyr am gyfraniadau gwirfoddol;
- polisiau codi tâl a pheidio â chodi tâl;
- gweithgareddau na chânt eu cynnal gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol;
- tâl am ddefnyddio bysiau mini ysgolion.

Mae'r arweiniad hefyd yn egluro'r cymorth sydd ar gael i rieni sydd ar incwm isel ac sy'n cael budd-daliadau, pan ofynnir iddynt am gyfraniadau at gost ymweliadau ysgol.

Nid cyngor cyfreithiol yw'r arweiniad hwn, ac nid yw'n golygu na ddylai cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol

1. Cyflwyniad

Pwrpas yr arweiniad anstatudol hwn yw helpu penaethiaid a chyrrff llywodraethu i egluro'u polisïau ar godi tâl a pheidio â chodi tâl am weithgareddau ysgol ac ymweliadau ysgol. Mae'r ddogfen gyfarwyddyd hon yn darparu safbwynt polisi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n gyngor cyfreithiol ac nid yw'n golygu na ddylai'r darllenydd geisio'i gyngor cyfreithiol ei hun. Darperir enghreifftiau drwy'r testun i egluro pwyntiau. Darperir cwestiynau cyffredin, model o weithdrefn y gallai cyrrff llywodraethu ddewis ei mabwysiadu, a thempledi llythyrau yn yr Atodiadau.

2. Cyd-destun cyfreithiol

Mae Adrannau 449-462 Deddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") yn egluro'r gyfraith ynghylch y taliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau, mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Deddf 1996 yn nodi'r gweithgareddau y gall ac na all cyrrff llywodraethu godi tâl amdanynt pan gânt eu cynnal yn ystod oriau ysgol neu'r tu allan iddynt, gan gynnwys gweithgareddau preswyl. Mae Deddf 1996 hefyd yn mynnu y dylai fod gan bob corff llywodraethu ac awdurdod lleol yng Nghymru bolisïau codi tâl a pheidio â chodi tâl, ac y dylent eu hadolygu.

3. Polisiau codi tâl a pheidio â chodi tâl

3.1 Ni chaiff corff llywodraethu godi tâl ar rieni am unrhyw beth oni bai ei fod wedi mabwysiadu polisïau codi tâl a pheidio â chodi tâl.

3.2 Rhaid i'r polisi codi tâl roi manylion yr amgylchiadau pan fydd yr ysgol yn codi tâl ar rieni, a'r amgylchiadau pan all ofyn am gyfraniadau gwirfoddol. Rhaid i'r polisi peidio â chodi tâl hefyd egluro unrhyw amgylchiadau pan fydd yr ysgol yn hepgor codi tâl yn llwyr neu'n rhannol.

3.3 Dylai'r polisi codi tâl restru pob gweithgaredd y gellir codi tâl amdano, a dylai egluro pryd y codir tâl. Dylai ddarparu gwybodaeth glir i'r rhieni am sut y bydd tâl yn cael ei gyfrifo, a phwy a allai fod yn gymwys i gael help i dalu'r gost neu i beidio â gorfod talu o gwbl.

3.4 Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod y rhieni'n ymwybodol o'r polisïau codi tâl a pheidio â chodi tâl. Gellir gwneud hynny drwy eu rhoi ar wefan yr ysgol neu'u cyhoeddi ym mhrosiectws yr ysgol neu'r adroddiad blynyddol i rieni.

3.5 Gall polisïau cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol fod yn wahanol i'w gilydd, cyn belled â'u bod yn gyfreithlon.

4. Addysg

4.1 **Ni chaiff** cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol godi tâl am y canlynol:

- cais i dderbyn neu achos o dderbyn plant o oedran ysgol gorfodol i unrhyw ysgol a gynhelir;
- addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol (gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau neu gyfarpar arall a gyflenwir);
- addysg a ddarperir y tu allan i oriau ysgol os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n addysg neu'n weithgareddau sy'n cyflawni dyletswydd yr ysgol i ddarparu addysg grefyddol;
- hyfforddiant i ddisgyblion sy'n dysgu canu offerynnau cerdd, os yw'r hyfforddiant yn ofynnol fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o ddyletswydd yr ysgol i ddarparu addysg grefyddol;
- ffi gofrestru ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig, os yw'r plentyn wedi'i baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu ffi gofrestru ar gyfer ailsefyll arholiad(au) os yw'r disgybl yn cael ei baratoi ar gyfer yr arholiad(au) dan sylw yn yr ysgol;
- unrhyw gost neu dâl sy'n gysylltiedig â pharatoi disgybl ar gyfer arholiad.

4.2 **Caiff** ysgolion ac awdurdodau lleol godi tâl am y canlynol:

- unrhyw ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau neu gyfarpar, os yw rhiant y plentyn am fod yn berchen arnynt, neu os yw am i'r plentyn fod yn berchen arnynt;
- gweithgareddau ychwanegol dewisol (gweler paragraff 6 isod);
- hyfforddiant offerynnau cerdd, mewn amgylchiadau cyfyngedig (gweler paragraff 7).

5. Addysg a ddarperir yn rhannol yn ystod oriau ysgol

5.1 Os yw gweithgaredd, gan gynnwys "amser teithio cysylltiedig", yn digwydd yn rhannol yn ystod oriau ysgol ac yn rhannol y tu allan i oriau ysgol, ystyrir ei fod yn digwydd yn llwyr yn ystod oriau ysgol os yw o leiaf 50% ohono'n digwydd yn ystod oriau ysgol. Ni cheir codi tâl o dan amgylchiadau o'r fath. Ystyr "amser teithio cysylltiedig" yw amser y mae'r plant sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd addysgol o dan sylw yn ei dreulio yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r man lle mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal.

5.2 Gellir codi tâl ar rieni am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'r gweithgareddau hynny'n rhai nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol,

nad ydynt yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, ac nad ydynt yn rhan o addysg grefyddol.

Enghraifft o weithgaredd addysgol yn ystod oriau ysgol

5.3 Gallai taith bell olygu llawer o deithio cyn ac ar ôl oriau ysgol arferol, ond os yw'r amser a gaiff ei dreulio yn y gyrchfan yn cyd-fynd i raddau helaeth ag oriau ysgol, byddai'n rhaid ystyried bod y daith yn digwydd yn ystod amser ysgol ac ni fyddai modd codi tâl.

Enghraifft o weithgaredd addysgol y tu allan i oriau ysgol

5.4 Byddai taith a fyddai'n golygu gadael yr ysgol oddeutu awr yn gynharach nag arfer yn y prynhawn, ond a fyddai wedyn yn para tan yn weddol hwyr gyda'r nos, yn cael ei hystyried yn daith sy'n digwydd y tu allan i amser ysgol. Gellid codi tâl, felly, ond dim ond os nad yw'r gweithgareddau'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nad ydynt yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, ac nad ydynt yn rhan o addysg grefyddol.

6. Gweithgareddau ychwanegol dewisol

6.1 Gellir codi tâl am weithgareddau eraill a elwir yn weithgareddau ychwanegol dewisol. Yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sy'n darparu'r gweithgareddau sydd i benderfynu a ddylid codi tâl ai peidio. Gweithgareddau ychwanegol dewisol yw:

- addysg a ddarperir y tu allan i amser ysgol, nad yw:
 - a) yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
 - b) yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol;
 - c) yn rhan o addysg grefyddol.

(Er enghraifft, byddai gwyliau sgïo yn ystod gwyliau'r ysgol neu ymweliad â'r theatr gyda'r nos, ar yr amod nad oedd y perfformiad yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn cael eu hystyried yn weithgareddau ychwanegol dewisol.)

- trafndiaeth nad oes ei hangen i fynd â'r disgybl i'r ysgol neu i safle arall lle mae'r awdurdod lleol/corff llywodraethu wedi trefnu i addysg gael ei darparu i'r disgybl;
- bwyd a llety i ddisgybl ar ymweliad preswyl;
- deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn pynciau ymarferol ac ar gyfer aseiniadau prosiect, ar yr amod bod rhieni wedi cytuno ymlaen llaw eu bod hwy neu'r disgybl am gadw'r cynnyrch gorffenedig e.e. cynhwysion neu ddeunyddiau;

- ffi (ffioedd) i gofrestru ar gyfer arholiadau, os nad yw'r disgybl cofrestredig wedi'i baratoi ar gyfer yr arholiad(au) yn yr ysgol;
- arholiad nad yw ar restr benodedig, ond bod yr ysgol yn trefnu i'r disgybl ei sefyll.

Ceir codi tâl hefyd os yw disgybl yn methu, heb reswm da, â bodloni gofynion unrhyw arholiad cyhoeddus penodedig, pan fo'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi talu neu wedi cytuno i dalu'r ffi gofrestru yn wreiddiol.

6.2 Wrth gyfrifo cost gweithgareddau ychwanegol dewisol, gellir cynnwys swm yng nghyswllt y canlynol:

- unrhyw ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau neu gyfarpar a ddarperir yng nghyswllt y gweithgaredd ychwanegol dewisol;
- staff nad ydynt yn addysgu;
- staff addysgu a gyflogir dan gontractau ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â darparu gweithgaredd ychwanegol dewisol yn unig; mae hynny'n cynnwys athrawon llanw a gyflogir yn benodol i ddarparu'r gweithgaredd ychwanegol dewisol;
- cost, neu gyfran o gostau, staff addysgu a gyflogir i ddarparu hyfforddiant canu neu ganu offeryn cerdd, pan fo'r hyfforddiant yn weithgaredd ychwanegol dewisol.

6.3 Ni ddylai unrhyw dâl a godir yng nghyswllt disgyblion unigol fod yn fwy na gwir gost darparu'r gweithgaredd ychwanegol dewisol, o'i rhannu'n gyfartal â nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan. Felly, ni ddylai'r tâl gynnwys elfen o gymhorthdal ar gyfer unrhyw ddisgyblion eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y gweithgaredd, nad yw eu rhieni'n fodlon neu'n gallu talu'r tâl llawn.

6.4 At hynny, mewn achosion pan fo cyfran fach o'r gweithgaredd yn digwydd yn ystod oriau ysgol, ni all y tâl gynnwys cost darpariaeth amgen ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn dymuno cymryd rhan. Felly, ni ellir codi tâl am athrawon llanw i weithio yn lle'r athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol am eu bod yn mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl.

6.5 Cymerir rhan mewn unrhyw weithgaredd ychwanegol dewisol ar sail dewis y rhieni a pharodrwydd i dalu'r taliadau. Felly, mae cytundeb y rhieni'n angenrheidiol ac yn hanfodol wrth ddarparu gweithgaredd ychwanegol dewisol lle codir tâl.

7. Trafnidiaeth

Ni chaiff ysgolion godi tâl am:

- gludo disgyblion cofrestredig yn ôl ac ymlaen i safle'r ysgol, os oes rheidrwydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu trafndiaeth;
- cludo disgyblion cofrestredig i safle arall lle mae'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi trefnu i ddisgyblion gael eu haddysgu;

- trefnu trafndiaeth sy'n galluogi disgybl i fodloni gofyniad arholiad, pan fo wedi'i baratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw yn yr ysgol;
- trefnu trafndiaeth a ddarperir yng nghyswllt ymweliad addysgol.

8. Hyfforddiant Offerynnau Cerdd

Er bod y gyfraith yn nodi bod yn rhaid i'r holl addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol fod yn rhad ac am ddim, mae gwersi cerddoriaeth yn eithriad i'r rheol hon. **Caiff** ysgolion godi tâl am hyfforddiant offerynnau cerdd a ddarperir i ddisgyblion unigol, neu grŵp o uchafswm o bedwar disgybl, os nad yw'r addysgu'n rhan hanfodol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus y mae'r disgybl yn ei ddilyn.

9. Ymweliadau Ysgol

9.1 Ni chaiff ysgolion godi tâl am:

- addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol;
- addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol;
- athrawon llanw i weithio yn lle'r athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol am eu bod yn mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl.

9.2 **Caiff** ysgolion godi tâl am wir gost bwyd a llety ar gyfer teithiau preswyl.

9.3 Ystyrir bod ymweliad yn digwydd yn ystod amser ysgol os yw nifer y sesiynau ysgol y mae'r ymweliad yn digwydd ynddynt yn cyfateb i 50% neu fwy o nifer yr hanner diwrnodau a gymer yr ymweliad. Caiff pob diwrnod ysgol ei rannu'n ddwy sesiwn, a chaiff pob cyfnod o 24 awr ei rannu'n ddau hanner diwrnod sy'n dechrau am hanner dydd ac am hanner nos.

Enghraifft o ymweliad yn ystod oriau ysgol

9.4 Byddai ymweliad rhwng hanner dydd dydd Mercher a 9pm nos Sul yn cyfateb i naw hanner diwrnod sy'n cynnwys pum sesiwn ysgol. Ystyrir bod yr ymweliad yn digwydd yn ystod oriau ysgol.

Enghraifft o ymweliad y tu allan i oriau ysgol

9.5 Byddai ymweliad rhwng hanner dydd dydd Iau a 9pm nos Sul yn cyfateb i saith hanner diwrnod sy'n cynnwys tair sesiwn ysgol. Ystyrir bod yr ymweliad yn digwydd y tu allan i oriau ysgol. Os treulir 50% neu fwy o hanner diwrnod ar daith breswyl, dylech dybio bod yr hanner diwrnod cyfan wedi'i dreulio ar y daith.

Eithriadau rhag talu cost bwyd a llety

9.6 Pan fydd ysgol yn rhoi gwybod i rieni am ymweliad sydd ar ddod, dylent egluro y caiff rhieni a all brofi eu bod yn cael y budd-daliadau canlynol eu heithrio rhag talu cost bwyd a llety:

- a. Cymhorthdal incwm.
- b. Lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm.
- c. Unrhyw fudd-dal neu lwfans arall, neu os oes ganddynt hawl i unrhyw gredyd treth dan Ddeddf Credydau Treth 2002 neu elfen o gredyd treth o'r fath, fel y bydd rheoliadau'n nodi o bryd i'w gilydd, ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n perthyn yn llawn neu'n rhannol i'r amser a dreulir ar y daith. Ar hyn o bryd, caiff y canlynol eu nodi:
 - o cymorth dan Ran 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.
 - o Credyd Treth Plant, ar yr amod nad yw'r sawl dan sylw'n cael Credyd Treth Gwaith hefyd ac nad yw incwm y teulu (yn ôl asesiad gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi) yn fwy na £16,190 (h.y. plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
 - o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.
- ch. Yr elfen warant yng Nghredyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- d. Derbyn Credyd Cynhwysol

9.7 Wrth gynllunio teithiau preswyl, dylai ysgolion fod yn ymwybodol o amgylchiadau ariannol teuluoedd y disgyblion. Dylai ysgolion ystyried cost bwyd a llety ar deithiau preswyl ac ystyried hefyd a ydynt yn fforddiadwy, er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhy ddrud ar gyfer teuluoedd y rhan fwyaf o'r disgyblion. Os yw teithiau'n rhy ddrud, mae'n bosibl mai dim ond ychydig fydd yn manteisio arnynt, ac mae perygl i'r daith gael ei chanslo.

9.8 Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol hefyd, wrth drefnu teithiau preswyl, am yr angen i ariannu'r costau sy'n gysylltiedig â pheidio â chodi tâl ar deuluoedd cymwys.

9.9 Dichon y bydd ysgolion am arfer eu disgrisiwn a pheidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r tâl am eitemau ychwanegol dewisol ar gyfer teithiau, am ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau a chyfarpar o dan amgylchiadau penodol lle mae teuluoedd ar incwm isel yn cael trafferth talu am eitemau o'r fath.

10. Gofyn i Rieni am Gyfraniadau Gwirfoddol

10.1 Er na chaiff ysgolion godi tâl am weithgareddau sy'n digwydd yn ystod amser ysgol, nid oes dim yn y gyfraith i atal corff llywodraethu ysgol neu awdurdod lleol rhag gofyn i rieni ac eraill wneud cyfraniadau gwirfoddol (mewn arian parod neu mewn ffyrdd eraill) er budd yr ysgol neu i ariannu gweithgareddau'r ysgol. **Rhaid** i bob cais i rieni am gyfraniadau gwirfoddol **egluro bod y cyfraniad yn wirfoddol** ac nad oes rheidrwydd i wneud cyfraniad. **Rhaid** i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth

egluro hefyd na fydd plant rhieni nad ydynt yn cyfrannu'n cael eu trin yn wahanol mewn unrhyw fodd.

10.2 Os na ellir ariannu'r gweithgaredd heb gyfraniadau gwirfoddol, dylai'r corff llywodraethu neu'r pennaeth egluro hynny i'r rhieni pan wneir cais am y cyfraniad. Os na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol i wneud y gweithgaredd yn bosibl, ac os nad oes ffordd o gyflenwi'r diffyg, rhaid canslo'r gweithgaredd – rhaid egluro hynny i'r rhieni wrth ofyn am gyfraniadau. **Y pwynt hanfodol yw na cheir gadael unrhyw ddisgybl allan o weithgaredd oherwydd nad yw ei rieni'n gallu gwneud cyfraniad neu oherwydd nad ydynt yn barod i wneud hynny.** Rhaid i'r ysgol benderfynu yn gyntaf pa ddsbarth, neu grŵp o ddisgyblion, a fydd yn cael budd o'r gweithgaredd, ac yna chwilio am gyfraniadau gwirfoddol, naill ai ar gyfer y gweithgaredd hwnnw, neu drwy weithgareddau cyffredinol i godi arian. Dylai ysgolion egluro i'r rhieni ar y dechrau beth fydd eu polisi ar gyfer pennu lleoedd ar ymweliadau ysgol.

10.3 Wrth wneud ceisiadau am gyfraniadau gwirfoddol i gronfeydd yr ysgol, ni ddylid gwneud i rieni deimlo bod pwysau arnynt i gyfrannu. Dylai ysgolion osgoi anfon llythyrau â chod lliwiau i atgoffa'r rhieni i dalu, ac ni ddylai llythyrau eu bygwth na'u gorfodi.

10.4 Awgrymir na ddylai ysgolion ofyn i rieni drefnu debyd uniongyrchol neu archeb reolaidd ar gyfer gwneud cyfraniadau gwirfoddol.

Arfer Da

10.5 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn arfer da i ysgolion roi gwybod i rieni mewn da bryd am ymweliadau sydd ar ddod, am daliadau am weithgareddau neu am geisiadau am gyfraniadau, gan wneud hynny sawl wythnos ymlaen llaw, yn ddelfrydol. Mae hynny'n arbennig o bwysig yn achos materion costus megis ymweliadau preswyl. Os nad yw'r ysgol yn gwybod beth yw'r union ddyddiad a'r union gost, dylid rhoi amcan.

10.6 Pan fo'n ymarferol, mae'n arfer da i ysgolion ganiatáu i rieni dalu am deithiau drud mewn rhandaliadau dros gyfnod rhesymol o amser.

11. Tlodi Plant

Wrth drefnu teithiau a gweithgareddau ysgol, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid wneud cymaint ag sy'n ymarferol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn cael eu rhoi dan anfantais yn annheg. Mae'r pwysau o ran costau sydd ar deuluoedd ag incwm isel yn sylweddol, a dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid geisio sicrhau nad yw hynny'n cael ei waethygu er anfantais i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng gwerth addysgol teithiau preswyl a'u cost ariannol.

12. Gweithgareddau na chânt eu cynnal gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol

12.1 Pan fo sefydliad nad yw'n ysgol yn trefnu gweithgaredd sydd i'w gynnal yn ystod oriau ysgol, a bod rhieni am i'w plant ymuno yn y gweithgaredd hwnnw, gall

sefydliadau o'r fath godi tâl ar rieni. Yna, rhaid i'r rhieni ofyn i'r ysgol gytuno i'w plentyn fod yn absennol, yn yr un modd ag y byddent yn ei wneud pe baent am fynd â'u plant allan o'r ysgol am wyliau teuluol. Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu benderfynu a yw hynny er budd y disgybl. Rhaid iddynt hefyd gadw gofynion Rheoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") mewn cof, sef na ddylid caniatáu mwy na deg diwrnod ysgol o absenoldeb i ddisgybl mewn unrhyw flwyddyn oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

12.2 Fodd bynnag, pan fo gweithgaredd yn cael ei drefnu gan drydydd parti a phan fo'r gweithgaredd yn cael ei gymeradwyo gan yr ysgol, yn addysgol, neu'n cael ei oruchwylio gan rywun sydd wedi'i awdurdodi gan yr ysgol, dylid ei drin fel pe bai'n cael ei ddarparu gan yr ysgol ac ni ddylid codi tâl ar y rhieni neu'r disgyblion. Mae gweithgaredd o'r fath, os yw'n digwydd y tu allan i safle'r ysgol, yn weithgaredd addysgol cymeradwy yn ystyr Rheoliad 6 o Reoliadau 2010.

12.3 Diffinnir gweithgaredd addysgol cymeradwy fel:

- gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i safle'r ysgol ac:
- sydd wedi'i gymeradwyo gan unigolyn a awdurdodwyd i wneud hynny gan berchennog yr ysgol;
- sydd o natur addysgol, gan gynnwys profiad gwaith dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996 a gweithgaredd chwaraeon; a
- sy'n cael ei oruchwylio gan unigolyn a awdurdodwyd i wneud hynny gan berchennog neu bennaeth yr ysgol.

13. Bysiau Mini Ysgolion

13.1 Caiff ysgolion godi tâl am gludiant yn eu bysiau mini dim ond os oes ganddynt drwydded a roddwyd dan Adran 19 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, a dim ond os yw'r cludiant ar gyfer gweithgareddau eraill na chânt eu cynnwys ym mharagraff 6 ar dudalen 8. Mewn rhai achosion, mae'r drwydded yn eithrio'r ysgol rhag gofynion trwyddedu gweithredwyr a gyrwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid oes angen trwydded os na chodir tâl mewn arian parod neu mewn ffyrdd eraill. Dylai ysgolion wneud cais i'w hawdurdod lleol am drwydded ar gyfer pob bws mini.

13.2 Gall taliadau adennill rhywfaint o gostau rhedeg y cerbyd, neu'r costau i gyd, gan gynnwys y gwerth a gollir. Fodd bynnag, ni chaiff y gwasanaeth wneud elw, naill ai'n uniongyrchol drwy'r prisiau a godir neu'n ddamweiniol yn rhan o weithgaredd gwneud elw, hyd yn oed pe bai unrhyw elw'n mynd tuag at gostau eraill rhedeg yr ysgol neu at ddibenion elusennol. Tâl yw unrhyw daliad a wneir mewn arian parod neu mewn ffyrdd eraill (er enghraifft, drwy danysgrifiad i glwb) gan neu ar ran unigolyn, sy'n rhoi'r hawl iddo gael ei gludo.

13.3 Dim ond disgyblion, staff neu rieni'r ysgol a gaiff deithio am dâl mewn bws mini ysgol.

14. Gwybodaeth Atodol

Gwsg ysgol, dillad addysg gorfforol, cyfrifianellau, pinnau ysgrifennu etc, ffedogau

Ceir gwahodd rhieni i ddarparu eitemau o gyfarpar personol y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan eu plentyn hwy yn unig.

Torri a Difrodi Eiddo

Os yw ymddygiad disgybl yn arwain at ddifrod i eiddo neu gyfarpar yr ysgol, ceir gofyn i'r rhieni dalu am y gwaith atgyweirio angenrheidiol neu dalu am eiddo neu gyfarpar newydd. Dylid ymdrin â phob digwyddiad yn ôl ei deilyngdod ac yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

15. CWESTIYNAU CYFFREDIN, MODEL O WEITHDREFN A LLYTHYRAU ENGHREIFFTIOL

15.1 Mae'r atodiadau yn darparu deunyddiau i helpu cyrff llywodraethu ac ysgolion i weithredu polisiau ar godi tâl a pheidio â chodi tâl am weithgareddau ysgol ac ymweliadau ysgol. Nid oes rheidrwydd i'w defnyddio, ac nid awgrymir na allai fod gan ysgolion eisoes ddeunyddiau eraill sy'n well.

15.2 Mae Atodiad 1 yn cynnwys cwestiynau cyffredin.

15.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys model o weithdrefn ar gyfer codi tâl am weithgareddau ysgol. Nid oes rheidrwydd i fabwysiadu hon; gall corff llywodraethu fabwysiadu gweithdrefn o'i ddewis ei hun, os yw'n bodloni gofynion y gyfraith.

15.4 Mae Atodiad 3 yn cynnig llythyrau enghreifftiol y gallai ysgolion fod am eu defnyddio. Mae'r rhain wedi deillio o'n profiad ni o'r hyn sy'n gweithio'n dda. Nid oes rheidrwydd i'w defnyddio.

- Mae **Llythyr Enghreifftiol 1** yn gais am gyfraniad gwirfoddol ar gyfer taith, ymweliad neu weithgaredd ymarferol gyda'r ysgol. Mae'n egluro bod pob cyfraniad yn wirfoddol, a'i bod yn bosibl na fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal os na fydd mwyafrif sylweddol y rhieni'n cyfrannu. Mae hefyd yn egluro y gall y daith, os yw'n cael ei chynnal, gynnwys plant nad yw eu rhieni wedi gwneud cyfraniad gan fod pob plentyn yn cael ei drin yr un peth. Eglurir hefyd y bydd yr ysgol yn darparu gwybodaeth ynghylch sut y mae pob taith yn cael ei hariannu, os caiff gais i'r perwyl hwnnw.
- Mae **Llythyr Enghreifftiol 2** yn gais am dâl ar gyfer taith, ymweliad neu weithgaredd ymarferol gyda'r ysgol sy'n cael ei ystyried yn weithgaredd ychwanegol dewisol. Mae'n egluro nad yw'r ysgol mewn sefyllfa i gynnig cymhorthdal ar gyfer y digwyddiad nac i beidio â chodi tâl amdano.
- Mae **Llythyr Enghreifftiol 3** yn gais am dâl ar gyfer bwyd a llety ar daith breswyl. Mae hefyd yn dwyn sylw at y categorïau o bobl sy'n hawlio budd-daliadau a gaiff eu heithrio rhag talu.

Atodiad 1

Cwestiynau Cyffredin

Q Beth yw polisi codi tâl?

A Polisi codi tâl yw datganiad sy'n ystyried pob math o weithgaredd y gellir codi tâl amdano, ac sy'n egluro pryd y bydd tâl yn cael ei godi. Os codir tâl am fath penodol o weithgaredd, er enghraifft gweithgareddau ychwanegol dewisol, mae angen i rieni wybod sut y bydd y tâl yn cael ei gyfrifo a phwy a allai fod yn gymwys i gael help i dalu'r gost (neu gael y gweithgaredd yn rhad ac am ddim hyd yn oed). Dylid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i rieni. Ni chaiff yr awdurdod lleol na'r corff llywodraethu godi tâl am unrhyw beth oni bai eu bod wedi llunio datganiad ynghylch polisi cyffredinol ar godi tâl, a pha un bynnag, dim ond am y pethau hynny a ragnodir o dan y gyfraith y cânt godi tâl. Gall polisi'r corff llywodraethu fod yn fwy hael neu'n llai hael na pholisi'r awdurdod lleol, cyn belled â'i fod yn bodloni gofynion y gyfraith.

Q A all cyrff llywodraethu godi tâl am addysgu plant mewn ysgolion a gynhelir?

A Ni ellir codi tâl am dderbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir. Rhaid i addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol fod yn rhad ac am ddim. Mae hynny'n cynnwys deunyddiau a chyfarpar, a thrafnidiaeth a ddarperir yn ystod oriau ysgol gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol i gludo disgyblion rhwng yr ysgol a gweithgaredd. "Oriau ysgol" yw'r oriau pan fo'r ysgol yn gweithio, ac nid ydynt yn cynnwys yr egwyl yng nghanol y diwrnod ysgol.

Q A all ysgol godi tâl am weithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol?

A Gellir codi tâl ar rieni am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'r gweithgareddau hynny'n rhai nad ydynt yn rhan angenrheidiol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nad ydynt yn rhan o gwricwlwm sylfaenol yr ysgol ar gyfer addysg grefyddol, neu nad ydynt yn weithgareddau sy'n rhan hanfodol o'r maes llafur ar gyfer arholiad cymeradwy. Gellir codi tâl am weithgareddau eraill sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'r rhieni'n cytuno i dalu. Mae Deddf Addysg 1996 yn galw gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt yn weithgareddau ychwanegol dewisol. Yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sy'n darparu'r gweithgareddau sydd i benderfynu a ddylid codi tâl ai peidio.

Q A all ysgol ofyn am gyfraniadau gwirfoddol?

A Gall, mewn rhai amgylchiadau. Er na all ysgolion yn gyffredinol godi tâl am weithgareddau sy'n digwydd yn ystod amser ysgol, gallant wahodd rhieni ac eraill i wneud cyfraniadau gwirfoddol (mewn arian parod neu mewn ffyrdd eraill) i ychwanegu at yr arian sydd yng nghronfeydd yr ysgol neu i gynorthwyo gyda gweithgaredd penodol. Rhaid i bob cais i rieni am gyfraniadau gwirfoddol egluro y byddai'r cyfraniadau'n wirfoddol. Dylai cyrff llywodraethu egluro hefyd na fydd plant rhieni nad ydynt yn cyfrannu'n cael eu trin yn wahanol mewn unrhyw fodd. Os na all

gweithgaredd penodol ddigwydd heb rywfaint o help gan rieni, dylid egluro hynny wrthynt yn ystod y cam cynllunio.

Q Beth sy'n digwydd os nad yw'r ysgol yn gallu cael digon o gyfraniadau gwirfoddol i dalu costau?

A Os na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol i wneud y gweithgaredd yn bosibl, ac os nad oes ffordd o gyflenwi'r diffyg, rhaid canslo'r gweithgaredd. Y pwynt hanfodol yw na ellir gadael unrhyw ddisgybl allan o weithgaredd oherwydd na all, neu na wnaiff, ei rieni wneud cyfraniad o unrhyw fath.

Q Pam mae'n rhaid i'r ysgol gael Polisi Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl?

A Mae Polisi Codi Tâl a Pheidio â Chodi Tâl yn ofynnol dan y gyfraith, a'i ddiben yw lleihau'r rhwystrau ariannol a allai atal rhai disgyblion rhag elwa o weithgareddau ac ymweliadau ysgol.

Q A fydd taith breswyl yn ystod oriau ysgol, ynteu a fydd y tu allan iddynt?

A Ystyrir bod gweithgaredd preswyl yn digwydd yn ystod amser ysgol os yw nifer y sesiynau ysgol y mae'r disgyblion yn eu colli yn cyfateb i 50% neu fwy o nifer yr hanner diwrnodau a gymer y gweithgaredd. Caiff pob diwrnod ysgol ei rannu'n ddwy sesiwn fel arfer, a chaiff pob cyfnod o 24 awr ei rannu'n ddau hanner diwrnod sy'n dechrau am hanner dydd ac am hanner nos. Os treulir 50% neu fwy o hanner diwrnod ar daith breswyl, ystyrir bod yr hanner diwrnod cyfan wedi'i dreulio ar y daith.

Atodiad 2

Polisi ar Godi Tâl am Weithgareddau Ysgol

Pwrpas y Polisi

Pwrpas y polisi hwn yw egluro'r taliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau yn [NODWCH ENW'R YSGOL]. Mae'r polisi wedi'i lunio yn unol ag Adrannau 449-462 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n egluro'r gyfraith ynghylch y taliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Amgylchiadau pan na chodir tâl

Ni chodir tâl am y canlynol:

Addysg yn yr ysgol

- Addysg a ddarperir yn llwyr neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol.
- Achos o dderbyn plant o oedran ysgol gorfodol i'r ysgol.
- Gweithgareddau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur arholiad penodedig, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Unrhyw ddeunyddiau, llyfrau ac offerynnau neu gyfarpar arall a ddarperir.

Trafnidiaeth

- Cludo disgyblion cofrestredig yn ôl ac ymlaen i safle'r ysgol, os oes rheidwydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu trafndiaeth.
- Cludo disgyblion cofrestredig i safle arall lle mae'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi trefnu i ddisgyblion gael eu haddysgu.
- Trefnu trafndiaeth sy'n galluogi disgybl i fodloni gofyniad arholiad, pan fo wedi'i baratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw yn yr ysgol.
- Trefnu trafndiaeth a ddarperir yng nghyswllt ymweliad addysgol sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Ymweliadau preswyl

- Addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol.
- Addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Athrawon llanw i weithio yn lle'r athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol am eu bod yn mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl.

Hyfforddiant offerynnau cerdd

- Plant sy'n dysgu canu offerynnau cerdd yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer gan yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol; neu
- Cost sydd ynghlwm wrth baratoi disgybl ar gyfer arholiad.

Ffioedd arholiadau

- Ffi gofrestru ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig, os yw'r disgybl wedi'i baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu ffi gofrestru ar gyfer ailsefyll arholiad os yw'r disgybl yn cael ei baratoi ar gyfer yr arholiad dan sylw yn yr ysgol.

Amgylchiadau pan gaiff yr ysgol godi tâl ar rieni

Gweithgareddau ychwanegol dewisol

Gellir codi tâl am weithgareddau eraill a elwir yn weithgareddau ychwanegol dewisol. Pan fo gweithgaredd ychwanegol dewisol yn cael ei ddarparu, gellir codi tâl fel a ganlyn am ddarparu deunyddiau, llyfrau, offerynnau neu gyfarpar:

Addysg

- Gweithgareddau sy'n digwydd yn llwyr neu'n bennaf y tu allan i amser ysgol, os nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Deunyddiau a ddefnyddir mewn pynciau ymarferol ac aseiniadau prosiectau, ar yr amod bod y rhieni wedi cytuno o flaen llaw eu bod hwy neu'r disgybl yn dymuno cadw'r cynnyrch gorffenedig, ee cynhwysion neu ddeunyddiau.

Hyfforddiant offerynnau cerdd

- Hyfforddiant offerynnau cerdd a ddarperir i ddisgyblion unigol, neu grŵp o uchafswm o bedwar disgybl, os nad yw'r addysgu'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus y mae'r disgybl yn ei ddilyn.

Trafnidiaeth

- Trafnidiaeth nad oes ei hangen i fynd â'r disgybl i'r ysgol neu safle arall lle mae'r corff llywodraethu wedi trefnu i addysg gael ei ddarparu i'r disgybl.

Ffioedd arholiadau

- Mae'r arholiad ar y rhestr benodedig, ond ni chafodd y disgybl ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol.

- Nid yw'r arholiad ar y rhestr benodedig, ond mae'r ysgol yn trefnu i'r disgybl ei sefyll.
- Mae disgybl yn methu, heb reswm da, â bodloni gofynion unrhyw arholiad cyhoeddus, pan fo'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi talu neu wedi cytuno i dalu'r ffi gofrestru yn wreiddiol.

Bwyd a Llety

- Cost bwyd a llety ar gyfer teithiau preswyl, hyd yn oed pan fo'r teithiau yn digwydd yn bennaf yn ystod amser ysgol. (Caiff disgyblion y mae eu rhieni'n cael budd-daliadau penodol eu heithrio rhag talu cost bwyd a llety, gweler tudalen 4).

Cyfraniadau gwirfoddol

Er na all ysgolion godi tâl am weithgareddau sy'n digwydd yn ystod amser ysgol, gellir gofyn am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni ar gyfer gweithgareddau sy'n ategu cwricwlwm arferol yr ysgol.

Bydd ceisiadau i rieni am gyfraniadau gwirfoddol yn nodi:

- nad oes rheidrwydd cyfreithiol i wneud cyfraniad gwirfoddol;
- na fydd disgyblion yn cael eu gadael allan oherwydd anallu neu amharodrwydd eu rhieni i dalu;
- na fydd plant rhieni na all gyfrannu yn cael eu trin yn wahanol mewn unrhyw fodd; a
- y caiff y gweithgaredd ei ganslo os na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol i wneud y gweithgaredd yn bosibl, ac os nad oes ffordd o gyflenwi'r diffyg.

Ni ddylai ceisiadau a wneir am gyfraniadau gwirfoddol yng nghyswllt disgyblion unigol gynnwys unrhyw elfen o gymhorthdal ar gyfer unrhyw ddisgyblion eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y gweithgaredd, nad yw eu rhieni'n fodlon neu'n gallu talu'r tâl llawn.

Peidio â chodi tâl

Caiff rhieni a all brofi eu bod yn cael y budd-daliadau canlynol eu heithrio rhag talu cost bwyd a llety ar daith breswyl:

- a. Cymhorthdal Incwm.
- b. Lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm.
- c. Unrhyw fudd-dal neu lwfans arall, neu os oes ganddynt hawl i unrhyw gredyd treth dan Ddeddf Credydau Treth 2002 neu elfen o gredyd treth o'r fath, fel y bydd rheoliadau'n nodi o bryd i'w gilydd, ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n perthyn yn llawn neu'n rhannol i'r amser a dreulir ar y daith. Ar hyn o bryd, caiff y canlynol eu nodi:

- cymorth dan Ran 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad yw'r sawl dan sylw'n cael Credyd Treth Gwaith hefyd ac nad yw incwm y teulu (yn ôl asesiad gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi) yn fwy na £16,190(hy plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.

ch. Yr elfen warant yng Nghredyd Pensiwn y Wladwriaeth

d. Derbyn Credyd Cynhwysol

Efallai y bydd y corff llywodraethu am beidio â chodi tâl ar rieni, yn llwyr neu'n rhannol, am gost gweithgareddau eraill mewn amgylchiadau penodol.

Gwybodaeth Atodol

Gwisg ysgol, dillad addysg gorfforol, cyfrifianellau, pinnau ysgrifennu etc, ffedogau

Ceir gwahodd rhieni i ddarparu eitemau o gyfarpar personol y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan eu plentyn hwy yn unig.

Torri a difrodi eiddo

Os yw ymddygiad disgybl yn arwain at ddifrod i eiddo neu gyfarpar yr ysgol, ceir gofyn i'r rhieni dalu am y gwaith atgyweirio angenrheidiol neu dalu am eiddo neu gyfarpar newydd. Dylid ymdrin â phob digwyddiad yn ôl ei deilyngdod ac yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

Atodiad 3

Llythyrau Enghreifftiol

Llythyr enghreifftiol [1]

Cyfraniad gwirfoddol ar gyfer Taith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol

Annwyl Rieni,

[enw'r plentyn/blwyddyn/pwnc]

Mae'r ysgol yn trefnu **[Taith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol]** i **[lle]** ar **[dyddiad(au)]**.

Mae gweithgareddau fel y rhain yn fuddiol gan eu bod yn rhoi profiadau i ddisgyblion na fyddent yn eu cael fel arall.

Mae pob cyfraniad yn wirfoddol ac mae'n bosibl na fydd y gweithgaredd arfaethedig yn cael ei gynnal oni bai bod mwyafrif sylweddol y rhieni'n cyfrannu. Os bydd y **[Daith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol]** yn digwydd, mae'n bosibl y bydd yn cynnwys plant nad yw eu rhieni wedi gwneud unrhyw gyfraniad. Ni fyddwn yn trin y plant hynny'n wahanol i unrhyw blant eraill. Mae gan rieni hawl i wybod sut y caiff pob taith ei hariannu, a bydd yr ysgol yn darparu'r wybodaeth honno os caiff gais i'r perwyl hwnnw.

Bydd eich cyfraniad yn talu am **[nodwch: prydau bwyd (brecwast, pecyn cinio, a swper), yswiriant, trafndiaeth a chyfarpar]**.

I gyfrannu, dylech lenwi'r slip ateb isod a'i ddychwelyd i swyddfa'r ysgol erbyn **[dyddiad]** gyda'ch cyfraniad mewn amlen, gan nodi enw a blwyddyn eich plentyn a 'cyfraniad i'r ysgol' arni. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i **[enw]**.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Yn gywir

[enw]

Slip Ateb

Dylech ddychwelyd y slip i swyddfa'r ysgol

Cyfraniad at: **[Taith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol]**

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth/blwyddyn: _____

Amgaeaf

£

Ticiwch un o'r canlynol

siec

arian parod

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Llythyr enghreifftiol [2]

Talu am Weithgaredd Ychwanegol Dewisol

[Mae gwybodaeth am weithgareddau ychwanegol dewisol i'w gweld ar dudalen 4 o'r Arweiniad].

Annwyl Rieni,

[enw'r plentyn/blwyddyn/pwnc]

Mae'r ysgol yn trefnu **[Taith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol]** i **[lle]** ar **[dyddiad(au)]**. Mae gweithgareddau fel y rhain yn fuddiol gan eu bod yn rhoi profiadau i ddisgyblion na fyddent yn eu cael fel arall.

Cost y **[Daith/Ymweliad/Gweithgaredd Ymarferol]** **[hon/hwn]** fydd **[swm]** y disgybl.

Bydd y swm hwn yn talu am **[nodwch: costau llety, prydau bwyd (brecwast, pecyn cinio, a swper), yswiriant, trafnidiaeth a chyfarpar]**.

Nid yw'r ysgol mewn sefyllfa i roi cymhorthdal i dalu am yr ymweliad hwn, nac ychwaith i gynnig peidio â chodi tâl, felly, bydd angen tâl oddi wrth bob disgybl sydd am fynd ar yr ymweliad. Mae'n bosibl na fydd yr ymweliad yn cael ei gynnal o gwbl os na fydd digon o ddiddordeb ynddo.

I dalu, dylech lenwi'r slip ateb isod a'i ddychwelyd i swyddfa'r ysgol erbyn **[dyddiad]** gyda'ch tâl mewn amlen, gan nodi enw a blwyddyn eich plentyn ac enw'r 'daith/ymweliad/gweithgaredd ymarferol' arni. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i **[enw]**.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Yn gywir

[enw]

Slip Ateb

Dylech ddychwelyd y slip i swyddfa'r ysgol

**[Gweithgaredd Ychwanegol Dewisol] Tâl am
[daith/ymweliad/gweithgaredd ymarferol]**

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth/blwyddyn: _____

Amgaeaf

£

Ticiwch un o'r canlynol

siec

arian parod

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Llythyr enghreifftiol [3]

Teithiau Preswyl

Annwyl Rieni,

[enw'r plentyn/blwyddyn/pwnc]

Mae'r ysgol yn trefnu Taith Breswyl i **[lle]** ar **[dyddiad(au)]**.

Mae gweithgareddau fel y rhain yn fuddiol gan eu bod yn rhoi profiadau i ddisgyblion na fyddent yn eu cael fel arall.

Ni chodir tâl am y gweithgaredd na'r costau teithio; fodd bynnag, codir tâl o **[swm]** i dalu am fwyd a llety. I dalu, dylech lenwi'r slip talu isod a'i ddychwelyd i swyddfa'r ysgol erbyn **[dyddiad]** gyda'ch tâl mewn amlen, gan nodi enw a blwyddyn eich plentyn ac enw'r daith breswyl arni. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i **[enw]**.

Nid ydym yn gofyn am dâl oddi wrth rieni sy'n cael y budd-daliadau a ganlyn **[rhowch restr o'r budd-daliadau]**. Os ydych yn cael unrhyw un neu rai o'r rhain, dylech lenwi'r slip eithrio amgaeedig a'i ddychwelyd i swyddfa'r ysgol erbyn **[dyddiad]** mewn amlen, gan nodi enw a blwyddyn eich plentyn arni.

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth.

Yn gywir

[enw]

Slip Talu

Dylech ddychwelyd y slip i swyddfa'r ysgol

[Enw'r daith breswyl]

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth/blwyddyn: _____

Amgaeaf

£

Ticiwch un o'r canlynol

siec

arian parod

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____

Slip Eithrio

Dylech ddychwelyd y slip i swyddfa'r ysgol

Cais i beidio â chodi tâl am fwyd a llety ar [Enw'r daith breswyl]

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth/blwyddyn: _____

Rwyf yn cael y budd-dal/iadau a ganlyn:

Llofnodwyd: _____

Dyddiad: _____